Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

David T.C Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig
Tŷ'r Cyffredin
Llundain
SW1A 0AA

18 Rhagfyr 2015

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Tachwedd 2015. Rydym yn cytuno y bu'r cyfarfod cydamserol yn llwyddiant. Rydym yn gobeithio y bydd y pwyllgor a fydd yn ein holynu yn y Cynulliad nesaf yn ceisio adeiladu ar y dull gweithredu hwn os bydd y cyfle'n codi.

Byddai'r Pwyllgor yn ei gyfanrwydd, a mi yn fy rolau fel Cadeirydd y Pwyllgor a'r Dirprwy Lywydd, yn croesawu'n fawr y cyfle i bwyllgorau San Steffan gael mwy o ryddid gweithdrefnol i gwrdd ar y cyd â phwyllgorau'r Cynulliad.

Rydym yn credu bod ein Rheolau Sefydlog yn rhoi mwy o gyfleoedd i bwyllgorau'r Cynulliad gydweithio mewn ffyrdd sydd o fudd i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Bydd cynnig mwy o gyfleoedd i gydweithio hefyd, yn fwy cyffredinol, yn gwella'r cydweithredu rhyng-seneddol gan y ddwy ddeddfwrfa, sef pwynt a godwyd yn argymhellion 54 a 55 yn Rhan II o'r Adroddiad Silk, Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru. Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed y pwyntiau yr ydych yn eu codi.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Hefyd, fel y gwyddoch cyhoeddom ein hadroddiad ar Fil Cymru drafft yn ddiweddar. Rwy'n amgáu copi caled o'r adroddiad i chi. Rydym yn edrych ymlaen at ddarllen eich adroddiad ar y Bil drafft maes o law.

Yn gywir

**David Melding**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.